Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Newyddlen CCAUC Ebrill 2010

Grant CCAUC ar gyfer addysg uwch	Llythyr cylch gwaith 2010-11	Penodiadau newydd i Gyngor CCAUC, a phenodiadau eraill	Y penodiad cyntaf yn natblygiad y Coleg Ffederal	Corff amrywiol o fyfyrwyr ym mhrifysgol-ion Cymru	Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlae-thol Cymru
Lansio'r Consortiwm Newid Hinsawdd	Llywod-raethu sefydliadau addysg uwch mewn dirwasgiad	Ar y gweill	Swyddi gwag	Cylch-lythyron diweddar	www. hefcw. ac.uk

Grant CCAUC ar gyfer addysg uwch – blwyddyn academaidd 2010/11

Cadarnhaodd CCAUC y bydd y sector addysg uwch (AU) yng Nghymru'n derbyn dyraniadau grant o £403 miliwn yn y flwyddyn academaidd 2010/11.

Nid yw hyn yn cynnwys dyraniadau cyfalaf o £22.6 million ar gyfer y flwyddyn ariannol 2010-11 sydd eisoes wedi cael eu cyhoeddi fel rhan o becyn cyllido tair blynedd i gefnogi Cynlluniau Buddsoddi Cyfalaf y prifysgolion. Cafodd £7 miliwn o hyn eu dwyn ymlaen i'r blynyddoedd ariannol 2008-09 a 2009-10 i annog prifysgolion i ymgymryd â phrosiectau adeiladu newydd a gwaith cynnal a chadw er mwyn rhoi hwb i'r diwydiant adeiladu lleol. Ar y llaw arall, cafodd dyraniadau cyfalaf, gan gynnwys symiau 'a ddygwyd ymlaen', eu *cynnwys* yn y dyraniadau grant o £433.8 miliwn a gyhoeddwyd ar gyfer y flwyddyn academaidd flaenorol (2009/10).

Bydd 20% o'n dyraniadau grant yn cael ei roi o'r neilltu ar gyfer y Gronfa Gweithredu Strategol newydd, sy'n cynnwys ffrydiau i gefnogi *Er Mwyn Ein Dyfodol*, strategaeth a chynllun Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer AU yn yr unfed ganrif ar hugain. Bydd y gronfa'n cael ei chynyddu yn ystod y blynyddoedd nesaf ac yn atgyfnerthu rôl sefydliadau AU ym meysydd hybu cyfiawnder cymdeithasol a chynnal economi bywiog.

Mae'r dyraniadau grant yn adlewyrchu cynigion cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch yn y flwyddyn ariannol 2010-11sydd, heblaw am eitemau wedi'u gwarchod megis cyllid ar gyfer ailgyflunio a chydweithio, wedi cadw cyllid addysg uwch prif ffrwd ar yr un lefel â'r flwyddyn ariannol 2009-10.

Crynodeb o ddyraniadau grant 2010/11 – addysg uwch

Sefydliad	Cyfanswm	Cyfanswm gyda chyllid HCA (SAC) wedi'i ddangos yn erbyn y sefydliad sy'n ei ddarparu*	Newid % yng nghyfanswm y cyllid 2009/10 i 2010/11 gyda chyllid HCA wedi'i gynnwys yn y sefydliad sy'n ei ddarparu
Prifysgol Morgannwg	52,334,456	52,334,456	-1.85%
Prifysgol Aberystwyth*	31,800,634	32,499,632	-2.22%
Prifysgol Bangor*	32,062,905	31,363,907	-2.42%
Prifysgol Caerdydd	110,376,786	110,376,786	-1.74%
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	5,847,828	5,847,828	0.32%
Prifysgol Abertawe	41,274,095	41,274,095	-1.93%
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd*	28,649,280	26,921,323	-2.12%
Prifysgol Cymru, Casnewydd*	17,496,626	19,224,583	-2.27%
Prifysgol Glyndŵr	15,064,963	15,064,963	-3.40%
Prifysgol Fetropolitan Abertawe*	12,444,400	14,917,687	-2.44%
Coleg Prifysgol y Drindod*	8,170,889	5,697,602	-0.80%
Y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd	354,713	354,713	-2.37%
Cyfanwsm	**355,877,574**		

* Mae Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd, Coleg Prifysgol y Drindod a Phrifysgol Bangor yn bartneriaid cyllido arweiniol ar gyfer y Canolfannau hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA) newydd.

Mae cyfanswm eu dyraniadau'n cynnwys cyllid ar gyfer HCA (SAC) sy'n cael ei ddarparu yn y sefydliadau sy'n bartneriaid iddynt: Prifysgol Cymru, Casnewydd, Prifysgol Fetropolitan Abertawe, a Phrifysgol Aberystwyth.

Felly, wrth gymharu cyllid o flwyddyn i flwyddyn, mae'r ddwy golofn olaf yn y tabl yn dangos y dyraniadau cyllid a'r newid canrannol ar gyfer y prifysgolion hyn ar sail darparu (a chyllido) cyrsiau HCA yn yr holl sefydliadau sy'n bartneriaid iddynt, nid y partneriaid cyllido arweiniol yn unig.

Yn dilyn ei eitem ar gyllid CCAUC yn rhifyn 25 Mawrth, cyhoeddodd *Times Higher Education* eglurhad yr wythnos ganlynol nad oedd y cyfansymiau yr oedd wedi'u rhoi yn cynnwys y cyllid ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon a oedd wedi cael ei ddyfarnu i chwe sefydliad.

Meddai Roger Thomas, Cadeirydd CCAUC: “Mae prifysgolion yn rhoi’n ôl i economi Cymru lawer mwy na’r lefelau o fuddsoddi cyhoeddus a dderbyniant, gan gynnwys drwy fuddsoddiad mewnol sylweddol ar ffurf myfyrwyr tramor. Drwy gyfrannu at ddatblygu gweithlu tra medrus, a chynhyrchu a chymhwyso gwybodaeth, mae’r sefydliadau’n dangos eu bod yn ymwybodol o bwysigrwydd defnyddio arian cyhoeddus i greu Cymru lewyrchus.”

Meddai’r Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC: “Mewn amgylchedd ariannol tynn, rydym yn falch o weld bod y buddsoddiad cyhoeddus sylweddol mewn addysg uwch yn parhau. Mae yna her amlwg i addysg uwch yn yr hinsawdd economaidd hon a byddwn yn annog y sefydliadau i wneud y defnydd mwyaf effeithlon o’r arian sydd ar gael, yn unigol a chyda’i gilydd. Wrth i ni ddatblygu ein Cronfa Gweithredu Strategol newydd, byddwn yn parhau i flaenoriaethu dyraniadau cyllid yn y dyfodol i sicrhau ein bod yn cael yr adenillion gorau posibl o’r buddsoddiad mawr sy’n cael ei wneud o’r pwrs cyhoeddus.”

Mae grant 2010/11 yn cynnwys swm o £4 miliwn sydd wedi cael ei ailgyfeirio i gefnogi meysydd blaenoriaethol CCAUC a Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef ymchwil ac ehangu mynediad, ac i warchod y premiwm cyfrwng Cymraeg. Bydd £28.9 miliwn yn cael eu dyrannu i gefnogi ailgyflunio a chydweithio, *Ymgyrraedd yn Ehangach*, Cymru’n Un ac ailgyflunio hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Addysg uwch a gyllidir yn uniongyrchol mewn colegau addysg bellach

Sefydliad	Cyfanswm
Coleg Pen-y-bont	72,987
Coleg Sir Gâr	1,111,652
Coleg Llandrillo Cymru	1,288,389
Coleg Castell-nedd Port Talbot	124,867
Coleg Abertawe	24,551
Cyfanswm	**2,622,446**

⇨ Datganiad i’r wasg llawn

⇨ Cylchlythyr grant rheolaidd (cyllido) ar gyfer 2010/11

⇨ Mae’r cylchlythyr ar *Ganlyniadau’r Ymgynghoriad ar Newidiadau i’r Trefniadau Cyllido* yn cyflwyno canlyniadau ein hymgynghoriad diweddar ar newidiadau yn y dyfodol i’r trefniadau cyllido, a pha newidiadau a gaiff eu gweithredu a pha bryd.

Llythyr cylch gwaith CCAUC oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru

Derbyniasom ein llythyr cylch gwaith ar gyfer y flwyddyn ariannol 2010-11 ar 11 Mawrth gan Leighton Andrews, Gweinidog Addysg Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r llythyr yn nodi'r blaenoriaethau y bydd angen i CCAUC roi sylw iddynt yn y flwyddyn i ddod a'u goruchwylio yn y sector addysg uwch. Mae'r arweiniad yn cyd-fynd ag *Er Mwyn Ein Dyfodol*, strategaeth a chynllun Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch yn yr unfed ganrif ar hugain yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2009.

⇨ Llythyr cylch gwaith

Penodiadau newydd i Gyngor CCAUC a phenodiadau eraill

Mae Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg, wedi croesawu penodi pedwar aelod newydd i Gyngor CCAUC, ac ailbenodi un o'r aelodau presennol.

Yr aelodau newydd yw Mrs Bethan Guilfoyle CBE, Mr James Bennett, Mr David Mason a Miss Nina Park. Mae'r Athro Mari Lloyd-Williams wedi cael ei hailbenodi am ail gyfnod.

⇨ Bywgraffiadau

Meddai Leighton Andrews: "Pleser o'r mwyaf gen i yw cyhoeddi penodi'r aelodau newydd a fydd yn dod â chryn brofiad a gwybodaeth i'r Cyngor. Maen nhw'n ymuno â'r Cyngor ar adeg heriol ar gyfer y sector addysg uwch wrth iddo fynd ati i weithredu *Er Mwyn Ein Dyfodol*. Edrychaf ymlaen at weithio'n agos gyda nhw yn ystod y blynyddoedd i ddod."

Dywedodd y Prif Weinidog: "Mae addysg uwch yn allweddol i ddyfodol economi a chymdeithas Cymru, drwy hyfforddi pobl fedrus, a gwaith ymchwil, a'i chyfraniad economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Rydw i'n hynod falch ein bod ni wedi llwyddo i ddenu aelodau o safon mor uchel i'r Cyngor ac rydw i'n edrych ymlaen at weithio gyda nhw yn eu swyddi newydd."

⇨ Datganiad i'r wasg

Penodiadau eraill

- Mae pedwar corff cyllido addysg uwch y DU wedi penodi'r Athro Alan Speight, Prifysgol Abertawe, yn un o gyfarwyddwyr bwrdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer addysg uwch. Roedd yr Athro Colin Baker o Brifysgol Bangor yn dal y swydd hon cyn hyn.
- Mae CCAUC wedi estyn cyfnod Martyn Harrow o Brifysgol Caerdydd yn ei swydd fel un o gyfarwyddwyr bwrdd y Cyd-bwyllgor Systemau Gwybodaeth (JISC) hyd 2010.

Mae JISC yn ysbrydoli colegau a phrifysgolion y DU i wneud defnydd o dechnolegau digidol arloesol, gan helpu'r DU i gadw ei safle fel arweinydd byd-eang ym maes addysg.

- Yn dilyn ymgynghoriad, rydym wedi enwebu Alec McSkimming, Prifysgol Caerdydd, i gynrychioli CCAUC ar fwrdd rheoli JANET (UK). Bydd yn cymryd lle Huw Williams o Brifysgol Morgannwg a fu'n cyflawni'r rôl hon ar ran CCAUC ers chwe blynedd.

Hoffem ddiolch i bawb sy'n gadael ac sy'n aros yn eu swyddi am eu cyfraniadau, ac rydym yn ddiolchgar i'r rheiny sydd wedi cytuno i gael eu penodi.

Y penodiad cyntaf yn natblygiad y Coleg Ffederal

Mae Geraint Talfan Davies wedi cael ei gadarnhau'n Gadeirydd y Bwrdd Gweithredu Cysgodol ar gyfer y Coleg Ffederal, a fydd yn goruchwylio datblygiad cyfreithiol y coleg ffederal addysg uwch cyfrwng Cymraeg yn ystod y flwyddyn i ddod.

Yn strategaeth a chynllun addysg uwch Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, *Er Mwyn Ein* Dyfodol, gofynnir i CCAUC sefydlu Bwrdd Gweithredu i roi'r trefniadau yn eu lle ar gyfer y Coleg Ffederal Cyfrwng Cymraeg, a fydd yn cynnal, datblygu a goruchwylio darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg yng Nghymru.

Roedd hyn yn dilyn yr adroddiad a gyflwynwyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru gan yr Athro Robin Williams yn 2009 a gynigiodd fodel ar gyfer y Coleg Ffederal.

Bydd y Bwrdd newydd hefyd yn datblygu trefniadau ar gyfer ymdrin â materion cyllido, ymgorffori'r Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg, a strwythur rheoli a staffio'r Coleg Ffederal, a phenodi Cyngor Cenedlaethol newydd y Coleg Ffederal a throsglwyddo'r awenau iddo.

⇨ Datganiad i'r wasg

Corff amrywiol o fyfyrwyr ym mhrifysgolion Cymru

Mae'r ffigurau diweddaraf am sector addysg uwch y DU yn dangos bod prifysgolion a cholegau yng Nghymru yn parhau i wneud yn dda wrth recriwtio myfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Mae gan Gymru gyfrannau tebyg neu uwch o fyfyrwyr o'r mwyafrif o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch (AU) o'i chymharu â'r DU yn ei chyfanrwydd.

Mae'r dangosyddion perfformiad blynyddol yn dangos llwyddiant y sector AU yng Nghymru i ehangu mynediad ymysg grwpiau sydd yn draddodiadol wedi cael llai o brofiad o addysg uwch, yn enwedig israddedigion amser-llawn ifanc o ysgolion a cholegau'r wladwriaeth ac o gymdogaethau lle y mae cyfranogiad yn isel, ac israddedigion amser-llawn a oedd yn derbyn lwfans myfyrwyr anabl.

⇨ Datganiad i'r wasg

Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ar 10 Mawrth 2010, dychwelodd CCAUC, gydag Addysg Uwch Cymru, y corff sy'n cynrychioli Is-Gangellorion, i roi tystiolaeth gerbron Ymchwiliad Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Gyllido Addysg Ôl-16, Bellach ac Uwch.

Bu CCAUC a'r Pwyllgor yn trafod materion a allai godi pe bai prifysgolion Cymru yn gweld gostyngiad sylweddol mewn incwm. Gan fod addysg uwch yng Nghymru yn derbyn, at ei gilydd, tua 38% o'i chyllid drwy CCAUC, bu'r Pwyllgor yn trafod yr adenillion ar y buddsoddiad mewn prifysgolion a manteision cyfuniadau a chydweithio ar raddfa fawr i economi Cymru a'r proffil ymchwil.

⇨ Adysgrif o'r dystiolaeth lafar

Beth yw 'ailgyflunio a chydweithio'?

Cafodd y Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio (a elwir bellach yn 'Gronfa Gweithredu Strategol; Ailgyflunio a Chydweithio') ei lansio yn 2002 i hybu ailsiapio'r sector addysg uwch yng Nghymru er mwyn sicrhau cynnydd sylweddol mewn perfformiad a'i wneud yn fwy cystadleuol. Mae nifer o bartneriaethau wedi cael eu cyllido hyd yma, gan gynnwys cyfuno Prifysgol Caerdydd a Choleg Meddygaeth Prifysgol Cymru, y Sefydliad Ymchwil Carbon Isel, y Gynghrair Strategol rhwng Prifysgol Morgannwg a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, a Sefydliad Gwyddorau Mathemategol a Chyfrifiannol Cymru.



Lansio'r Consortiwm Newid Hinsawdd

Cafodd Consortiwm Newid Hinsawdd Cymru ei lansio gan Jane Davidson AC, Gweinidog Llywodraeth Cynulliad Cymru dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, mewn digwyddiad a gynhaliwyd yn Abertawe ar 25 Mawrth. Bydd y datblygiad hwn, gyda chymorth £4 miliwn o'r Gronfa Gweithredu Strategol: Ailgyflunio a Chydweithio, yn dwyn ynghyd Brifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd ac Abertawe i:

- wella dealltwriaeth sylfaenol o achosion, natur, amseriad a chanlyniadau newid yn yr hinsawdd a'i effaith ar systemau ffisegol a chymdeithasol, a thrwy hynny hwyluso gwneud penderfyniadau ynghylch dyfodol cynaliadwy; ac
- ymgymryd ag 'ailgyfluniad strategol' o ymchwil i newid yn yr hinsawdd, gan gynyddu cystadleurwydd rhyngwladol drwy gryfhau cydweithio, adeiladu gallu, a chydlynu nifer sylweddol o ymchwilwyr.

Nod Consortiwm Newid Hinsawdd Cymru yw dod yn un o ganolfannau ymchwil blaenllaw'r byd ar gyfer astudio newid yn yr hinsawdd yn y gorffennol, heddiw ac yn y dyfodol.

Llywodraethu sefydliadau addysg uwch mewn dirwasgiad

Cafodd cynhadledd ar gyfer llywodraethwyr addysg uwch, a drefnwyd gan Gadeiryddion Addysg Uwch Cymru (CAUC), y Sefydliad Arweinyddiaeth, Addysg Uwch Cymru a CCAUC ei chynnal yng Nghaerdydd ar 3 Mawrth. Rhoddodd y Gynhadledd Datblygu Llywodraethwyr sylw i wahanol bynciau, gan gynnwys sicrhau iechyd ariannol a chynaliadwyedd prifysgolion a chynnal ysbryd staff prifysgol yn ystod cyfnodau anodd, a bu'n trafod priodweddau hanfodol prifysgol yn yr unfed ganrif ar hugain.

⇨ Datganiad i'r wasg

Traddododd Leighton Andrews, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, y brif araith yn y digwyddiad a gynhaliwyd ar yr un diwrnod ag y cyhoeddodd adolygiad o lywodraeth mewn addysg uwch.

Mae hyn yn ychwanegol at yr adolygiad o gyllido addysg a gyhoeddwyd ym mis Ionawr. Mae'r cam cyntaf, sy'n edrych ar gostau gweinyddu addysg yng Nghymru gan ddefnyddio gwybodaeth a gesglir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, eisoes ar y gweill.

⇨ Araith y Gweinidog

⇨ Adolygiad o lywodraeth mewn addysg uwch

Ar y gweill

Yn ystod y misoedd nesaf, disgwyliwn:

- gyhoeddi cynllun gweithredu wedi'i seilio ar yr argymhellion yn *Er Mwyn Ein Dyfodol, Cynllun a Strategaeth Addysg Uwch yr 21ain Ganrif i Gymru*;
- cyhoeddi arweiniad ar ddatblygu strategaethau rhanbarthol ar gyfer addysg uwch yng Nghymru, yn dilyn yr ymgynghoriad diweddar;
- ymgynghori ar y cynnig arfaethedig i osod uchafswm ar gyfer niferoedd o israddedigion amser-llawn o 2011/12.

Swyddi gwag

Swyddog Datblygu Strategol Cyfnod penodedig hyd 31 Rhagfyr 2011, addas ar gyfer secondiad. £21,000 - £23,059 Llanisien, Caerdydd **Dyddiad Cau:** 29 Ebrill 2010 **Dyddiad Cyfweld:** 11 Mai 2010 **Cyfeirnod y Swydd**: HE0096/606	Uwch Ddadansoddydd Cyllido Cyfnod penodedig hyd 18 Mawrth 2011, addas ar gyfer secondiad. £26,750 - £29,373 Llanisien, Caerdydd **Dyddiad Cau:** 29 Ebrill 2010 **In Dyddiad Cyfweld:** 18 May 2010 **Cyfeirnod y Swydd:** HE0053/605

Mae CCAUC yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned.

Gwneir penodiadau ar sail teilyngdod..

⇨ Rhagor o wybodaeth

Cylchlythyron diweddar

➡ W10/13HE: Ehangu Mynediad i Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches

Mae'n rhoi gwybodaeth am ehangu mynediad i addysg uwch ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches, ac enghreifftiau o arfer effeithiol wrth ddarparu cymorth ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

➡ W10/12HE: Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil: Canlyniadau'r Ymgynghoriad

Mae'n darparu gwybodaeth am ganlyniadau lefel uchel yr ymgynghoriad hwn gan bedwar corff cyllido AU y DU, a'r camau nesaf i'w cymryd i weithredu'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil.

➡ W10/11HE: Gosod uchafswm ar gyfer niferoedd o israddedigion amser-llawn o 2011/12

Mae'n rhoi gwybodaeth am drafodaethau arfaethedig i osod uchafswm ar gyfer niferoedd o israddedigion amser-llawn o 2011/12.

➡ W10/08HE: Datblygu Strategaeth Gorfforaethol CCAUC 2010-11 hyd 2012-13

Roedd y cylchlythyr hwn yn gwahodd sylwadau (erbyn 19 Ebrill) ar ein Strategaeth Gorfforaethol ddrafft ar gyfer 2010-11 hyd 2012-13. Ymateb erbyn: 19 Ebrill 2010

➡ Strategaeth Gorfforaethol CCAUC 2010-11 hyd 2012-13

➡ W10/07HE: Darparu gwybodaeth am gost astudio at ddefnydd darpar fyfyrwyr

Canllawiau ar arfer da wrth ddarparu gwybodaeth am gost astudio at ddefnydd myfyrwyr a darpar fyfyrwyr addysg uwch. Mae'r canllawiau wedi'u hanelu at uwch reolwyr a staff sy'n gysylltiedig â marchnata a derbyn myfyrwyr